# Canllawiau ar Annibyniaeth Llywodraethwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Y Bwrdd Llywodraethwyr | | |
| **Awdur** | Grŵp Ysgrifenyddion a Chlercod Cymru | | |
| **Awdurdodwyd gan:** | Y Bwrdd Llywodraethwyr | | |
| **Gweithredir gan:** | Y Llywodraethwyr | | |
| **Cyfeirnod:** | GUIBOG2021053 | | |
| **Yn disodli:** | Amherthnasol | | |
| **Fersiwn rhif:** | 1 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu<br>Y Bwrdd Llywodraethwyr |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | Mis Mawrth 2021 | **Cofnod rhif:** | 20.14.01<br>20.60.01 |
| **Statws:** | Terfynol/ Mabwysiadwyd | **Dyddiad Gweithredu:** | Mis Mawrth 2021 |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | - | **Dyddiad Adolygu:** | Mis Mawrth 2024 |

**Cynnwys:**


1. Cyflwyniad
2. Arferion Da Llywodraethu
3. Diffinio annibyniaeth
4. Egwyddorion annibyniaeth
5. Sicrhau annibyniaeth:
    - Recriwtio a hyfforddiant
    - Datgan buddiannau
    - Rôl y Clerc[1]
    - Adroddiad blynyddol ar annibyniaeth
6. Is-gwmnïau'r Brifysgol


## CYFLWYNIAD

1.1 Yn yr Adolygiad Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru, argymhellodd yr awdur Gillian Camm bennu safon uwch ar gyfer annibyniaeth llywodraethwyr nag oedd yn bodoli ar adeg yr Adolygiad (2019); ac y dylid cynhyrchu canllawiau ynghylch ystyr annibyniaeth a bod y materion hynny a allai gyfaddawdu annibyniaeth llywodraethwyr yn cael eu cyhoeddi a'u gwneud yn gyhoeddus. Bydd y canllawiau yn cael eu hategu gan wybodaeth a gyhoeddir gan brifysgolion yn flynyddol o leiaf.

[1] Defnyddir y term Ysgrifennydd a Chlerc y Bwrdd yn gyfnewidiol er bod y cyntaf yn arferol yn meddu ar gyfrifoldeb ychwanegol yn fwy na'r rhai sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Llywodraethwyr.

1.2 Datblygwyd y canllawiau hyn gan Ysgrifenyddion a Chlercod Prifysgolion Cymru mewn ymateb i'r argymhelliad ac maent yn seiliedig ar arferion da llywodraethu yn y sector prifysgolion a'r sector corfforaethol. Disgwylir y bydd y canllawiau'n cael eu mabwysiadu gan yr holl gyrff llywodraethu yng Nghymru.

**Prifysgolion Cymru**

1.3 Mae'r holl brifysgolion yng Nghymru wedi'u sefydlu gyda dogfennau llywodraethu sy'n nodi'r materion allweddol megis pwerau ac aelodaeth y corff llywodraethu Mae'r dogfennau llywodraethu hyn un ai'n 'Siarter a Statudau' (prifysgolion a sefydlwyd cyn 1992) neu'n 'Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu' (prifysgolion[2] a sefydlwyd ar ôl 1992). Tra bo dogfennau llywodraethu prifysgolion unigolion yn gosod gofynion gwahanol o ran eu gweithrediad, mae gan yr holl gyrff llywodraethu gyfrifoldebau a phwerau tebyg a rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cadw at ganllawiau arferion da llywodraethu priodol.

1.4 Mae'r canllawiau annibyniaeth hyn yn cynrychioli set o egwyddorion i gefnogi llywodraethu da ac nid oes unrhyw beth yn y canllawiau y bwriedir iddo wrthdaro â dogfennau llywodraethu'r prifysgolion.

## 1. ARFERION DA LLYWODRAETHU

2.1 Wrth ddatblygu'r canllawiau hyn cyfeiriwyd at y Codau Ymarfer perthnasol. Disgwylir i'r holl lywodraethwyr weithredu'r Saith Egwyddor mewn Bywyd Cyhoeddus ('Egwyddorion Nolan'). Mae'r codau perthnasol eraill yn cynnwys Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion a Chod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig 2018 sy'n ymgorffori argymhellion annibyniaeth yn deillio o adolygiadau llywodraethu corfforarethol megis Adroddiad Cadbury (1992), Adroddiad Hampel (1998) ac Adroddiad Higgs (2003).

2.2 Mae Cod y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion yn awgrymu bod Byrddau'n ystyried a yw'n fuddiol penodi Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol. Mewn prifysgol gallai'r rôl hwn gael ei alw'n Uwch Aelod Annibynnol (o'r Corff Llywodraethu).

2.3 Yn y byd corfforaethol byddai'r rôl yn cael ei ystyried yn bwysig ar gyfer llywodraethu da; i gynorthwyo i gynghori'r Cadeirydd; bod yn gyfryngydd i aelodau eraill y Bwrdd a chynorthwyo i hwyluso arfarniad blynyddol y Cadeirydd. Awgrymir y gallai'r Uwch Aelod Annibynnol fod yn llais a gweithredu fel bwrdd seinio i aelodau eraill wirio effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu. Gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol pan yw sefyllfaoedd o wrthdrawiad potensial yn codi neu bod eraill yn dirnad eu bod wedi codi.

2.4 Serch hynny, mae sefydlu'r rôl hwn yn fater i gyrff llywodraethu unigol, Mewn prifysgolion (â Chadeiryddion anweithredol annibynnol) gallai Cyrff Llywodraethu deimlo y gall cyfrifoldebau Uwch Aelod Annibynnol gael eu cyflawni'n ddigonol gan yr Is-gadeirydd a/neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

## 3. DIFFINIO ANNIBYNIAETH

3.1 Dylai llywodraethwyr[3] wneud cyfraniad creadigol i'r Bwrdd trwy ddarparu trosolwg annibynnol, arweiniad strategol a her adeiladol i'r rheolwyr gweithredol.

3.2 *Mae annibyniaeth yn rhinwedd y gall unigolion feddu arno ac mae'n gydran hanfodol proffesiynoldeb ac ymddygiad proffesiynol. Mae'n cyfeirio at osgoi cael eu gor-ddylanwadu gan fuddiant breintiedig a bod yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau a fyddai'n atal dilyn y llwybr gweithredu cywir. Mae'n allu i 'sefyll ar wahân' i ddylanwad amhriodol*

[2] Sefydlwyd fel Corfforaethau Addysg Uwch.

[3] Mae'r holl brifysgolion yng Nghymru yn elusennau cofrestredig ac felly mae'r Llywodraethwyr hefyd yn Ymddiriedolwyr. Defnyddir y term Llywodraethwr yn y canllawiau hyn i olygu Ymddiriedolwr.

*a bod yn rhydd o ddaliad rheolwyr, i fedru gwneud y penderfyniad cywir a heb ei halogi ynghylch mater penodol.*

3.3 Ni ddylai Llywodraethwyr ganiatáu i'w hunain gael eu dal neu gael eu gor-ddylanwadu gan y buddiannau breintiedig eraill sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol megis uwch reolwyr neu rheolwyr canol, neu undebau llafur. Rhaid i lywodraethwyr fedru herio'n effeithiol ac yn adeiladol ac ni fedrant wneud hynny os oes gannddynt fuddiant breintiedig yn y mater sy'n cael ei drafod.

3.4 Mewn prifysgolion mae annibynnol[4] yn golygu unrhyw unigolyn a benodwyd i'r corff llywodraethu nad yw'n fyfyriwr cofrestredig nac yn aelod o staff y Brifysgol, nac yn unigolyn o awdurdod lleol etholedig.

3.5 Mae'n ofynnol i lywodraethwyr annibynnol[5] lunio mwyafrif y corff llywodraethu fel yr amlinellir yn nogfennau llywodraethu prifysgolion.

3.6 Gan fod llywodraethwyr annibynnol yn allweddol i ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd mewn Prifysgolion, mae cyfrifoldeb arnynt i fod yn dryloyw a dangos eu hannibyniaeth, i osgoi sgandal a chyhuddiadau o ofalu am eu buddiannau eu hunain.

3.7 Er mai pwrpas y canllawiau hyn yw rhoi arweiniad i lywodraethwyr annibynnol, bydd rhai agweddau hefyd yn berthnasol i staff etholedig a myfyrwyr lywodraethwyr, er enghraifft, datgan gwrthdrawiad buddiannau.

## 4. EGWYDDORION ANNIBYNIAETH

4.1 Mae nifer o amgylchiadau a *allai* atal unigolyn rhag cael ei benodi fel aelod annibynnol (o gorff llywodraethu). Bydd angen i Bwyllgor Enwebiadau'r Corff LLywodarethu, neu bwyllgor cyfatebol sy'n goruchwylio'r broses benodi, ystyried[6] y ffactorau hyn.

4.2 Mae amgylchiadau o'r fath yn cynnwys ble bo unigolyn:

a) yn neu wedi bod yn gyflogai'r brifysgol neu un o'i is-gwmnïau yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf;
b) wedi, neu wedi cael yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, berthynas busnes perthnasol â'r brifysgol, un ai'n uniongyrchol neu fel partner, rhanddeiliad, cyfarwyddwr neu uwch gyflogai[7] cwmni sydd â pherthynas o'r fath â'r brifysgol;
c) eisoes wedi gwasanaethu ar y corff llywodraethu'n flaenorol[8];
d) yn cynrychioli rhanddeiliad arwyddocaol;
e) wedi derbyn neu yn derbyn tâl ychwanegol gan y brifysgol ac eithrio tâl aelod annibynnol (os yw'n berthnasol) a threuliau perthnasol;
f) yn cyfranogi yn nghynllun tâl seiliedig ar berfformiad y brifysgol;
g) yn derbyn pensiwn prifysgol, gan nodi bod y potensial ar gyfer gwrthdrawiad yn llawer llai os yw'n gynllun pensiwn mawr aml-sefydliad ond â'r potensial i fod yn fwy arwyddocaol os yw'n gynllun prifysgol unigol gan y brifysgol honno;
h) yn meddu ar gysylltiadau teuluol agos[9] ag unrhyw un o gynghorwyr y brifysgol, aelod (o'r corff llywodraethu) neu uwch gyflogeion;

[4] Cyfeirir at lywodraethwyr annibynnol fel llywodraethyr 'lleyg' yn maes Addysg Uwch weithiau.

[5] Mewn (rhai) Corfforaethau Addysg Uwch mae categori arall o'r enw 'aelodau cyfetholedig' ac mae'n werth nodi, yn y Corfforaethau Addysg Uwch, gellid diffinio llawer o'r aelodau cyfetholedig fel aelodau annibynnol

[6] Nid yw'r rhestr yn 4.2 yn atal aelodaeth ond mae'n ofynnol i Pwyllgor Enwebiadau'r Corff Llywodraethu ystyriaed hynny.

[7] Uwch gyflogai yw un sy'n meddu ar swydd arweinyddiaeth neu reoli ac sydd â theitl yn y Cwmni, neu gyfrifoldebau'n cyfateb i, un ai gyfarwyddwr neu swydd sy'n uwch na chyfarwyddwr. .

[8] Dylid cyfeirio at ddogfennau llywodraethu sefydliadau unigol ynghylch y cyfnod a ddylai fod cyn i unigolyn gael ei ystyried i'w ailbenodi os ydynt wedi gwasanaethu fel llywodraethwr y brifysgol i'r cyfnod uchafswm a ganiateir yn flaenorol..

[9] Diffinnir cysylltiadau teuluol agos fel priod neu bartner sifil/domestig, plentyn/llys-blentyn rhiant/llys-riant, sibling/llys-sibling, nain/taid, wyr/wyres/ brawd/chwaer yng nghyfraith modryb, ewythr,, nith, nai.

i) yn meddu ar gysylltiadau proffesiynol, masnachol neu bersonol arwyddocaol ag aelod arall (o'r corff llywodraethu); neu

j) yn penderfynu cyflawni ymgynghoreiaeth daledig mewn busnes sy'n ymwneud mewn unrhyw fodd â'r brifysgol tra'n aelod (o'r corff llywodraethu).

Mae nifer o amgylchiadau, a ddynodir yn arferol gan ddogfennau llywodraethu prifysgol, sy'n atal unigolyn rhag cael ei benodi fel aelod annibynnol (o gorff llywodraethu) yn awtomatig. Enghreifftiau yw staff cyfredol, myfyrwyr cyfredol a chyn ymddiredolwyr sydd wedi gwasanaethu am y cyfnod uchafswm.

4.3 Ble cyfyd amgylchiadau o'r fath unwaith y bo aelod annibynnol wedi'i benodi, dylent ddatgan hynny ar unwaith i Glerc y corff llywodraethu yn gyntaf, a fydd yn cynghori am unrhyw gamau i'w dilyn. (Gwelera datgan buddiannau isod yn 6.1-6.5).

4.4 Ble bo unrhyw rai o'r amgylchiadau hyn neu amgylchiadau perthnasol eraill yn berthnasol, a bod y corff llywodraethu yn ystyried bod y llywodraethwr yn annibynnol serch hynny, dylid darparu esboniad clir.

## SICRHAU ANNIBYNIAETH

### 5. Recriwtio a hyfforddiant

5.1 Mae llywodraethwyr annibynnol yn cael eu recriwtio gan ddefnyddio prosesau sy'n glir ac yn dryloyw. Gellir targedu'r recriwtio yn unol ag anghenion penodol y corff llywodraethu (er enghraifft, yn nghyswllt sgiliau a phrofiad, ac amrywiaeth) ond ym mhob achos bydd paneli recriwtio yn ystyriol o'r angen i ystyried bod llywodraethwyr newydd yn bodloni'r diffiniad o annibyniaeth a nodir ym mharagraff 3.2 uchod.

5.2 Wrth ystyried ceisiadau a chyfweld darpar lywodraethwyr newydd, dylai paneli recriwtio geisio tystiolaeth:

(a) bod unigolion yn dangos anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, gonestrwydd, arweinyddiaeth a'r gallu i fod yn agored;

(b) y byddant yn medru herio'n effeithiol ac yn adeiladol;

(c) y byddant yn medru 'sefyll ar wahân' i ddylanwad amhriodol a bod yn rhydd o ddaliad rheolwyr;

(d) eu bod yn rhydd o fandadau neu unrhyw gyfyngiadau a fyddai'n atal dilyn y llwybr gweithredu cywir, ac

(e) nad ydynt yn perthyn[10] i unrhyw un o gyflogeion y brifysgol nac unrhyw sefydliadau sy'n ennill mantais ariannol gan y Brifysgol.

5.3 Yn dilyn eu penodi bydd llywodraethwyr annibynnol newydd yn derbyn cyfnod cynefino a fydd yn cynnwys ffocws ar bwysigrwydd annibyniaeth a gwrthrychedd ac ymchwilio i ddulliau profi a herio, Yn dilyn hynny bydd y gweithgareddau hyfforddiant a datblygiad yn cynnwys edrych ar y themâu hyn ymhellach, fel bo'n briodol.

### 6. Datgan buddiannau

[10] Gweler diffiniad cysylltiad teuluol agos yn nodyn 7.

6.1 Mae prifysgolion yn elusennau hefyd, ac mae eu llywodraethwyr yn ymddiriedolwyr elusen. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolwyr weithredu er budd gorau'r elusen yn unig. Gall cysylltiadau personol a phroffesiynol llywodraethwyr roi budd i waith y brifysgol, ond gallant hefyd arwain at wrthdrawiad buddiannau, y mae'n rhaid i lywodraethwyr ymateb yn effeithiol iddynt.

6.1.1 Diffinnir *gwrthdrawiad buddiannau* gan y Comisiwn Elusennau fel unrhyw sefyllfa bleb o buddiannau neu deyrngarwch personol ymddiriedolwr yn medru, neu y gellir ei weld fel medru atal yr ymddiriedolwr rhag gwneud penderfyniad er budd gorau'r elusen yn unig. Yn arferol cyfyd gwrthdrawiadau buddiannau lle mae potensial o fuddiant ariannol neu fuddiant mesuradwy i ymddiriedolwr, neu'n anuniongyrchol trwy unigolyn cysylltiedig, neu gallai dyletswydd ymddiriedolwr i'r elusen gystadlu gyda dyletswydd neu deyrngarwch sy'n ddyledus i sefydliad neu unigolyn arall.

6.1.2 Diffinnir *gwrthdrawiad teyrngarwch* gan y Comisiwn Elusenau fel gwrthdrawiad buddiannau sy'n codi oherwydd, er nad yw'r ymddiriedolwr a effeithir mewn sefyllfa i ennill unrhyw fuddiant, gallai proses gwneud penderfyniadau'r ymddiriedolwr yn yr elusen gael ei dylanwadu gan ei fuddiannau eraill. Gellir defnyddio'r termau 'buddiant deuol' i ddisgrifio'r sefyllfa hon. Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, gallai'r ymddiriedolwyr benderfynu, lle nad yw gwrthdrawiad buddiannau o'r fath yn peri risg neu risg isel i wneud penderfyniadau er budd goau'r elusen, gallai'r ymddiriedolwr a effeithir, yn dilyn datgan y buddiant, gymryd rhan yn y drafodaeth a gwneud y penderfyniad

6.2 Rhaid i'r holl lywodraethwyr, p'un ai'n llywodraethwyr annibynnol neu wedi'u penodi gan staff neu fyfyrwyr y brifysgol, geisio osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfa o wrthdrawiad (gwirioneddol neu botensial) rhwng eu buddiannau a'u teyrngarwch personol neu broffesiynol a'u dyletswydd i'r corff llywodraethu a'i bwyllgorau. Ni ddylent ganiatáu i unrhyw wrthdrawiad buddiannau neu deyrngarwch godi a allai ymyrryd â'u barn annibynnol.

6.3 Disgwylir i lywodraethwyr, i'r perwyl hyn:

a) wneud datganiad buddiannau blynyddol i'r brifysgol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, gan roi'r manylion y gofynnir amdanynt a defnyddio'r fformat a ragnodir gan y Clerc;

b) ceisio cymeradwyaeth ysgrifenedig gan y Cadeirydd cyn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau allanol neu ddatblygiad busnes newydd a allai gael dylanwad, un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar waith y brifysgol;

c) hysbysu'r Clerc am unrhyw newidiadau i'w amgylchiadau yn ystod y flwyddyn sy'n cael dylanwad ar eu datganiad buddiannau;

d) ar ddechrau pob cyfarfod, nodi'n rhagweithiol a hysbysu aelodau am unrhyw eitem benodol y gallai eu buddiannau datganedig effeithio anynt ac, os yw'n ofynnol gan y Cadeirydd, beidio â chymryd rhan yn y drafodaeth berthnasol neu wneud penderfyniad, neu adael y cyfarfod ar y pwynt priodol;

e) ar ddiwedd pob cyfarfod, datgan unrhyw wrthdrawiad buddiannau neu deyrngarwch nas rhagwelwyd a gododd yn ystod y drafodaeth.

6.4. Ym mhob achos lle nodwyd gwrthdrawiad mewn cyfarfod, bydd cofnodion y drafodaeth yn cofnodi'r broses a ddilynwyr a lefel y cyfranogiad a ganiatawyd.

6.5 Mae'r Clerc yn llunio cofrestr fuddiannau yn flynyddol a'i chyhoeddi ar wefan y brifysgol.

## 7. Rôl y Clerc

7.1 Yn unol â Chod y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol, dylai'r holl lywodraethwyr gael mynediad at gyngor a gwasanaethau Clerc, y mae'n rhaid iddo sicrhau bod aelodau'r corff llywodraethu yn llwyr ymwybodol o'r rheolau, rheoliadau a'r gweithdrefnau priodol. Dylai'r Clerc fod yn swydd uwch i sicrhau bod y corff llywodaethu a'r rheolwyr gweithredol yn gweithredu mewn modd sy'n cydymffurfio â rheoliadau'r brifysgol, ac yn ddigon annibynnol i herio hynny pan nad dyna'r achos.

7.2 Mae'r Clerc yn atebol i dynnu sylw'r Cadeirydd at faterion annibynniaeth neu wrthdrawiadau.

7.3 Yn unol â disgwyliadau Cod Rheoli Ariannol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, lle bog an y Clerc gyfrifoldebau arwyddocaol ar lefel yr uwch dîm gweithredol, rhaid i'r corff llywodraethu adolygu, o leiaf bob tair blynedd, p'un ai yw annibynniaeth swydd y Clerc mewn perygl o'i gyfaddawdu ac, os felly, p'un ai y dylid trosglwyddo'r rôl i rywun arall neu y gellir cyflwyno mesurau diogelu digonol i'r trefniadau sy'n bodoli eisoes.

## 8. Adroddiadau blynyddol ynghylch annibyniaeth

8.1 Bydd y brifysgol yn adrodd yn flynyddol, trwy ei adroddiad blynyddol, ynghylch sut y dilyswyd ac y sicrhawyd annibyniaeth ei llywodraethwyr annibynnol.

## 9. Is-gwmnïau

9.1 O dro i dro gall prifysgol benodi llywodraethwr i weithredu fel cyfarwyddwr un o'i is-gwmnïau[11], i gynrychioli buddiannau'r Brifysgol fel aelod neu gyfranddaliwr y cwmni hwnnw. Os yw'r cwmni hefyd yn elusen, bydd y cyfarwyddwr yn ymddiriedolwr yr elusen. Mewn achosion o'r fath gellid ystyried bod gan yr aelod wrthdrawiad teyrngarwch.

9.2 Yn ychwanegol at gyfraith elusennau, mae *Deddf Cwmnïau 2006* yn nodi'r gyfraith yng nghyswllt gwrthrawiadau buddiannau sy'n effeithio ar gyfarwyddwyr. Mae'r gweithdrefnau cyffredinol i reoli gwrthdrawiadau buddiannau (gweler uchod, paragraffau 6.1-6.5) yn galluogi cyfarwyddwyr a benodir gan y brifysgol i gydymffurfio â'u dyletwyddau tuag at y brifysgol. Fodd bynnag, mae gan gyfarwyddwr a benodwyd gan y brifysgol ddyletswydd statudol hefyd dan gyfraith cwmnïau i osgoi sefyllfa lle gallent fod â buddiannau uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n gwrthdaro, neu a allai wrthdaro, â buddiannau'r cwmni.

9.3 Mae gan lawer o gwmnïau eu cod ymddygiad neu god ymarfer eu hunain, sy'n cynnwys polisïau i alluogi eu cyfarwyddwyr i gydymffurfio â'u dyletswydd statudol i osgoi gwrthdrawiadau. Disgwylir i unrhyw gyfarwyddwr a benodir gan y brifysgol i un ai gydymffurfio â phoilsi'r cwmni y maent yn gyfarwyddwr ohono; neu, lle nad oes polisi o'r fath neu ei fod yn annigonol, i dynnu sylw'r brifysgol yn unol â hynny.

9.4 Yn achlysurol gallai dyletswyddau cyfarwyddwr a benodir gan y brifysgol i'r brifysgol wrthdaro gyda'r dyletswyddau sy'n ddyledus ganddo/ganddi i'r cwmni. Os yw cyfarwyddwr a benodwyd gan y brifysgol yn ansicr a yw sefyllfa benodol yn cynrychioli gwrthdrawiad buddiannau ai peidio, dylent drafod y mater gyda'r Clerc a, lle bo'n berthnasol, ysgrifennydd y cwmni. Mewn achosion eithriadol gellid gofyn am gyngor cyfreithiol, a gallai fod yn ofynnol i gyfarwyddwr a benodwyd gan y brifysgol

[11] Byddai'r canllawiau hyn yn berthnasol hefyd os penodir llywodraethwyr i fod yn aelod o fwrdd cynllun pensiwn mewnol.

ymddiswyddo fel cyfarwyddwr ble ni ellir rheoli'r dyletswyddau sy'n gwrthdaro er budd y brifysgol a'r cwmni.

10**. Monitro ac Adolygu**

Yn dilyn ei fabwysiadu bydd y canllawiau'n cael eu hadolygu i ystyried unrhyw arferion da newydd neu ychwanegol.

Diwedd